

Cofnodion Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa, a gynhaliwyd ddydd Iau 1 Rhagfyr 2011 am 3yh yn Ystafelloedd Eleth/Eilian - Canolfan Dysgu a Datblygu Wylfa

Yn Bresennol:

A M Jones (Cadeirydd)	Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid y Safle
S Law	Dirprwy Gyfarwyddwr y Safle
K White	Magnox Cyf
M Humphreys	Magnox Cyf
R Cowell	Magnox Cyf
M Thornton	Magnox Cyf
P Walsh	Magnox Cyf
P Farrell	Magnox Cyf
T Roberts	Magnox Cyf
L Jones	Magnox Cyf
F Brookes	Magnox Cyf
D Hodges	Pŵer Niwclear Horizon
Dr L Davies	Swyddfa Rheoleiddio Niwclear
J Craske	Menter Môn
T Conway	Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol yr Wylfa
J Jones	Ysgol Syr Thomas Jones
Y Cynghorydd J V Owen	Cyngor Sir Ynys Môn – Parc a Mynydd
T Jones	Cyngor Sir Ynys Môn - Mechell
Y Cynghorydd K P Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn - Llanfaethlu
W T Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn- Llanbadrig
A W Hughes	Menter Môn
S Andrews	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Y Fonesig Anglesey	
E Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
P Bull	Renovate Services Company
Dr D Gadson	FIACP
A Hall	Dŵr Cymru
T Poole	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
A Hughes	Seibiant
L Haliburton	Seibiant
M O'Hara	Staff Wylfa sydd wedi Ymddeol

1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cyn symud at yr agenda, hysbysodd y cyfarfod am farwolaeth drist Mrs Annie Williams, Merched y Wawr, a oedd wedi mynychu cyfarfodydd y Grŵp yn rheolaidd cyn mynd yn sâl. Safodd pawb ar eu traed fel arwydd o barch. Byddai'r Cadeirydd yn anfon llythyr cydymdeimlo at ei theulu.

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Nick Gore (Cyfarwyddwr Safle Magnox Wylfa); Derek Jones (Swyddog Parodrydd Argyfwng Magnox Wylfa); Dr John Idris Jones (Rheolwr Materion Economaidd-Gymdeithasol Magnox); Jan Milburn (Pennaeth Datgomisiynu Magnox Wylfa); Ieuan Wyn Jones (Aelod Cynulliad); Jac Jones (Cyngor Cymuned Mechell); Dave Clarke (ONR – Uwch Arolygydd Safle); Dylan Williams (Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro, Datblygu Economaidd, Cyngor Sir Ynys Môn); Linda Wyn Jones (Cydllynydd y Rhaglen Ynys Ynni, Cyngor Sir Ynys Môn); Sasha Wynn Davies (Cyfarwyddwr Rhaglen Ynys Ynni

Ynys Môn, Cyngor Sir Ynys Môn); Mr Richard Parry Jones (Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn); Mr Steve Howards (Asiantaeth yr Amgylchedd); Y Cynghorydd Glyn Roberts (Cyngor Cymuned Mechell); Y Cynghorydd Val Roberts (Cyngor Tref Amlwch); Y Cynghorydd Dylan Jones (Cyngor Sir Ynys Môn); A Hughes (Cyngor Cymuned Llanbadrig); G W Roberts (Cyngor Sir Ynys Môn); Alan Smith (Horizon); J.C. Jones FUW.

2. CYMERADWYO COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 8 MEDI 2011

Pasiwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir o'r cyfarfod. Cawsant eu cynnig gan y Cynghorydd W T Hughes a'u heilio gan y Cynghorydd K Hughes.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION BLAENOROL

Mewn perthynas â chyfarfodydd a drefnwyd yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Weightman a oedd yn ymwneud â'r digwyddiad yn Fukushima, mae ONR yn trefnu cyfarfodydd rhanbarthol ac rydym yn disgwyl cadarnhad am leoliad y cyfarfod yn yr ardal hon, sy'n debygol o gael ei gynnal yn 2012. Gofynnwyd a oedd rhywun yn gwybod lle byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal. Nodwyd bod Bangor wedi'i grybwyll ond nid oedd hyn wedi'i gadarnhau. Gofynnodd y Cadeirydd i Les Davies roi gwybod y byddai'r cyfarfod yn cael ei groesawu yn yr ardal hon.

4. ADRODDIAD CYFARWYDDWR Y SAFLE

Yn anffodus, nid oedd Nick Gore yn gallu mynychu'r cyfarfod i roi ei adroddiad gan ei fod yn mynychu'r Cyfarfod Rheoli Safleoedd Tanwydd yn Llundain. Felly Stuart Law, Rheolwr y Safle a Dirprwy Gyfarwyddwr y Safle, roddodd Adroddiad y Cyfarwyddwr Safle.

Yn dilyn adolygiad cymheiriaid WANO (Cymdeithas Gweithredwyr Niwclear y Byd), lle daeth 12 o bobl i adolygu'r safle am bythefnos a phennu meysydd i'w gwella ar y safle, roedd S Law a chydweithiwr yn mynd i edrych ar ffyrdd o roi sylw i'r materion a chyflwyno'u cynllun gweithredu i bencadlys WANO ym Mharis. Canlyniad cadarnhaol yw bod 'cryfder' wedi'i bennu. Ychydig iawn o 'gryfderau' y mae WANO wedi'u dyfarnu (tri yn y pum mlynedd diwethaf), ac maent yn dyfarnu cryfder dim ond os yw'n unigryw a heb ei weld mewn man arall. Gallai WANO weld gwelliant parhaus y safle, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd y staff a 'chadw tŷ'. Roedd angen gwneud rhagor o welliannau mewn 13 maes, a oedd wedi gostwng o 15, sy'n gyflawniad arall.

Roedd Bwrdd EnergySolutions wedi ymweld â Wylfa yn ddiweddar ar gyfer Adolygiad Diogelwch, ac mae Wylfa hefyd wedi cael y Cleddyf Anrhydedd am y trydydd tro.

O ran gweithrediadau'r safle, mae Wylfa wedi rhagori ar ei tharged, gyda 28 fflasg wedi'u symud i Sellafeld. Ddydd Sul, 16 Hydref, cafodd Adweithydd 2 ei ddiffodd. Ar ôl colli cyflenwadau i Adweithydd 2 yn anfwriadol wrth weithio ar Adweithydd 1, cymerodd y peirianwyr y camau cywir a'i ddiffodd â llaw. Ddiwedd Hydref, oherwydd falf nad oedd wedi'i alinio'n iawn aeth rhywfaint o olew i mewn i Adweithydd 1, ond roedd hwn wedi'i glirio.

Yn dilyn digwyddiad Fukushima, a cyhoeddi adroddiad terfynol Weightman ym mis Medi, mae Wylfa wedi bod yn edrych ar gyfarpar a fydd ar gael ac yn barod i'w ddefnyddio os bydd yr angen yn codi.

Yn dilyn cael cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Diogelwch Niwclear, gobeithio y bydd Wylfa yn gallu cynhyrchu ar ôl 2012, hyd at Medi 2014. Mae profion wedi'u cwblhau flwyddyn neu ddwy yn ôl, yn edrych ar y posibilrwydd o gymryd tanwydd o Adweithydd 2 i Adweithydd 1 – mae Oldbury wedi bod yn gwneud hyn a gwyddys y byddai'r safle hwn yn gallu gwneud hynny.

O ran datblygiadau adeiladu newydd, mae Wylfa wedi bod yn cefnogi Horizon drwy roi cyfleoedd i un o'i unigolion ddod i wybod am y diwylliant niwclear, a'i ddeall.

Mae Pŵer Niwclear Horizon yn ddiweddar wedi llofnodi Cytundeb Perfformiad Cynllunio gyda Chyngor Sir Ynys Môn.

Cafodd y Tîm Cyfathrebu ei enwi ar y rhestr fer am wobrau PRide am gynllun yr oeddynt wedi'i gwblhau. Roedd Wylfa wedi bod yn cefnogi prosiectau, ar ôl derbyn 17 cais am nawdd a chymorth economaidd-gymdeithasol.

Ar ôl diolch i S Law am roi'r adroddiad a llongyfarch Wylfa ar ei llwyddiannau diweddar, yn arbennig mewn perthynas â'r wobwr Cleddyf Anrhydedd, gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan unrhyw un gwestiynau.

Gofynnodd y Cynghorydd K P Hughes a ddylen ni fod yn bryderus am y 13 gwelliant sy'n ofynnol ar ôl adolygiad WANO. O safbwynt diogelwch, esboniodd S Law petai digwyddiad yn digwydd lle byddai cyflenwadau'n cael eu colli neu debyg, byddai Wylfa eisiau gallu gwneud popeth posibl i sicrhau diogelwch a'u bod yn ystyried y mathau o ddigwyddiadau a allai ddigwydd. Ond doedd dim problemau sylweddol, ac ystyriwyd bod lleoliad ac union fan y safle yn ffodus.

Gofynnodd T Conway a oes unrhyw orgyffwrdd rhwng y gwelliannau ac Adroddiad Weightman. Disgrifiodd S Law beth sy'n digwydd yn Fukushima, a bod cynllun ar y cyd rhwng Wylfa, EDF a bwrdd canolog sy'n edrych ar broblemau ac yn ateb cwestiynau oddi wrth ONR, y Gymuned Ewropeaidd a WANO. Mae Adroddiad Gweithredu sylweddol yn mynd i bob cwmni ac mae pobl yn cael eu pennu i ddelio â phroblemau ymhob safle. O'r rheini, mae argymhellion yn cael eu pennu ac yn cael sylw. Felly mae rhywfaint o ddyblygu, ond y mae dull strwythuredig o weithredu ar waith hefyd.

Gofynnodd yr Arglwyddes Anglesey a oedd ymateb i adroddiad Weightman ar gael yn rhwydd, a dywedodd S Law ei fod ar gael ar y rhyngwyd.

5. ADRODDIAD CADEIRYDD GRŴP RHANDDEILIAID Y SAFLE

Roedd yr adroddiad wedi'i ddsbarthu eisoes. Dywedodd A Jones ei fod wedi mynychu cyfarfod y Grŵp Rhanddeiliaid Safleoedd Cenedlaethol ar 23/24 Tachwedd ym Manceinion a'i fod yn galonogol fod yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) o ddifri yng nghyswllt datgomisiynu ac y gellir dysgu llawer oddi wrth Drawsfynydd. Soniodd fod yr Awdurdod yn chwilio am Brif Weithredwr newydd gan y byddai Tony Fountain yn rhoi'r gorau i'w swydd. Dywedodd y byddai colled mawr ar ei ôl o gofio iddo fod yn hyrwyddwr mor gadarnhaol. Dywedodd ei fod wedi ysgrifennu ato i ddymuno'n dda iddo. Roedd y Cadeirydd wedi mynychu agoriad swyddogol y Ganolfan Ynni a Saernïo yng Ngholeg Menai, Llangefni ar 10 Tachwedd. Dyma ddatblygiad a dderbyniodd £1.5 miliwn gan yr NDA, sy'n pwysleisio ei gyfrifoldeb economaidd-gymdeithasol. Dywedodd fod y pwyllgor hwn a chynghorwyr wedi lobio am hyn a diolchodd i'r NDA.

6. Y DIWEDDARAF GAN YR AWDURDOD DATGOMISIYNU NIWCLEAR (NDA)

Amlinellodd Jonathan Jenkin y prif bwyntiau. Dywedodd y byddai Tony Fountain yn parhau yn ei swydd tan y Nadolig cyn rhoi'r gorau iddi. Dywedodd iddo gael dylanwad go iawn, ac roedd y farn hon yn cael ei rhannu gan randdeiliaid.

Mae wedi cael ei gyhoeddi y bydd Oldbury yn rhoi'r gorau i gynhyrchu ym mis Chwefror flwyddyn nesaf ar ôl 44 blynedd. Dywedodd fod Magnox wedi bod yn ffantastig, ac o fis Chwefror, Wylfa fydd yr unig orsaf gynhyrchu yn fflyd Magnox.

Bu'r digwyddiad cenedlaethol yn llwyddiant – roedd yn ddiwrnod da ac yn gyfle i ddechrau trafod ac edrych ar heriau pwysig. Cafodd materion megis adfer safleoedd a gwaredu

daearegol eu trafod. Mewn perthynas â hynny, Cumbria yw'r unig gymuned i ddangos diddordeb, a does dim cymuned wirfoddol wedi dod i'r wyneb eto.

Mae System Rheoli Perfformiad wedi'i rhoi ar waith ar y wefan i fonitro perfformiad ac i weld sut mae'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear yn perfformio.

Mae'r Cynllun Ymgysylltu Cenedlaethol wedi'i gyhoeddi bellach a bydd yn cael ei ddiweddarau'n gyson, er mwyn i randdeiliaid allu cyfrannu at ddatblygu Strategaeth yr NDA. Ar 5 Rhagfyr, cyhoeddwyd y cynllun busnes drafft, a bydd y broses ymgynghori yn para tan ddiwedd Ionawr. Mae'n edrych yn fanwl ar y flwyddyn nesaf a'r targedau ar gyfer 2012. Mae hefyd yn rhoi blas o bethau sydd i ddod dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear wedi bod yn edrych eto ar y strategaeth economaidd-gymdeithasol, ac mae pethau'n aros yr un fath i bob pwrpas, yn benodol, Rhaglen Cyfleoedd Magnox, yn edrych ar y 10 safle sy'n sicr o dderbyn nawdd am 4 blynedd. Ym mis Ebrill 2012, bydd mwy o arian ar gael i brosiectau economaidd-gymdeithasol bychan i ganolig eu maint, yn ogystal â'r cyllidebau canolog ar gyfer prosiectau mwy. Mae'r cysylltiad â phartneriaethau yng Ngogledd Cymru yn parhau, gyda Jonathan yn dweud iddo fynychu cyfarfod Môn Menai cyn mynychu cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa.

Roedd T Conway yn awyddus i ofyn am Safle MOX Sellafield, a'r ffaith ei fod wedi'i gau oherwydd 'risg fasnachol' ar ôl y tsunami a'r ddaeargryn yn Japan. Wrth ymateb, dywedodd J Jenkin fod Japan yn gwsmer pwysig ar gyfer tanwydd, ond oherwydd bod cymaint o ansicrwydd ynghylch tanwydd MOX o Japan, erbyn hyn, nid yw bellach yn ymarferol, a'r unig ffordd ymlaen yw lleihau. Mae'n well i drethdalwyr y DU petai'n cau. Mae'r Llywodraeth wedi bod yn ystyried opsiynau ar gyfer rheoli Plwtoniwm ac, fel rhan o'r gwaith hwnnw, efallai y bydd marchnad newydd ar gyfer tanwydd MOX. Yn y cyfamser, mae'r Llywodraeth wedi bod yn edrych ar ffyrdd o ddelio gyda chyflenwadau Plwtoniwm y DU, gan gynnwys ei aildefnyddio fel tanwydd MOX.

Gofynnwyd a oes unrhyw elfen amser parthed lleihau Plwtoniwm. Ar hyn o bryd, mae Plwtoniwm yn cael ei storio yn Sellafield yn unol â rheolaethau rheoleiddio, ond ni fydd yn newid dros nos. Dywedodd T Conway ei fod wedi synnu gyda'r diffyg mentergarwch ac y byddai cwmnïau olew a nwy yn gorfoleddu oherwydd y diffyg cystadleuaeth.

Nodwyd y cais gwerth £450,000 ar gyfer Ynys Ynni fel rhan o ddatblygiadau economaidd-gymdeithasol, a bod ymateb yn cael ei ddisgwyl.

7. Y DIWEDDARAF GAN Y SWYDDFA RHEOLEIDIDO NIWCLEAR (ONR)

Rhoddyd yr adroddiad hwn gan L Davies. Dywedodd fod llawer o amser wedi'i dreulio yn rheoli arolygiadau, a bod y safle angen cymeradwyaeth yr ONR cyn symud ymlaen. Cyfeiriodd at y digwyddiad gyda'r generadur disel ychydig yn ôl, lle roedd y safle a'r ONR wedi cynnal ymchwiliadau. Cafodd gwelliannau eu pennu, ac roedd yr ONR wedi ysgrifennu'n ffurfiol i'r safle gydag ymatebion am welliannau.

8. Y DIWEDDARAF GAN IS-GRŴP ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL WYLFA

Roedd cyfarfod byr wedi'i gynnal wythnos diwethaf. Roedd dau grant bach wedi'u cymeradwyo. Roedd cymorth wedi'i roi i BTCV Cymru, prosiect sy'n dysgu sgiliau i bobl ifanc, yn ogystal â Always Aim High, mudiad di-elw a gafodd ei sefydlu y llynedd. Roedd y safle hefyd yn gobeithio cefnogi triathlon a digwyddiad traws gwlad yn 2012 yn ogystal â hanner marathon Ynys Môn, gyda phwyslais ar gyfarpar a diogelwch yn y digwyddiadau.

9. CYNLLUN DATBLYGU ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL 2011-2015

Rhoddodd M Humphreys gyflwyniad byr am yr adroddiad, sydd wedi'i gynhyrchu ar y cyd gan yr NDA, Magnox ac Energy Solutions yng nghyswllt effaith economaidd. Byddai newidiadau yn bennaf yn y ffordd y mae mudiadau yn gwneud cais am arian. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid gwneud cais am ffurflen. Ond o Ebrill 2012 ymlaen bydd modd mynd ar y we a gwneud cais drwy borth. Byddai'r Is-grŵp yn chwalo, ond diolchodd M Humphreys i bawb a fu'n gysylltiedig ag ef.

Diolchodd y Cadeirydd i M Humphreys a'i llongyfarch am gael ei phenodi'n gynrychiolydd Cymru ar gyfer cyllid economaidd-gymdeithasol. Gofynnwyd i M Humphreys tua sawl cais y maent yn eu derbyn. Dywedodd eu bod yn derbyn oddeutu 12, a theimlwyd nad oedd y ffigur hwnnw mor uchel â hynny. Dywedodd ei fod yn cael cyhoeddusrwydd a bod croeso i bobl gysylltu i gael gwybod mwy am y meini prawf. Mae'r canllawiau cyllido ar gael ar-lein, ond mae'n dal yn bosibl cysylltu â'r safle i gael gwybodaeth. Gofynnwyd faint mae'r broses yn ei chymryd fel arfer, a dywedodd M Humphreys ei bod yn cymryd hyd at dri mis fel arfer, ond mae prosiectau mwy yn cymryd mwy o amser. Crybwyllodd J Jenkin y bydd y polisiau ariannu newydd yn unol â pholisi economaidd-gymdeithasol yr NDA a gyhoeddwyd yn 2008.

10 Y DIWEDDARAF GAN IS-GRŴP GWASTRAFF WYLFA

Oherwydd y gwyliau ac amserlen fer, nid oedd Is-grŵp Gwastraff Wylfa wedi gallu cyfarfod, ac felly doedd dim byd newydd i adrodd yn ei gylch.

11 DERBYN ADRODDIAD PWYLLGOR YMGYNGHORI CYNLLUNIO ARGYFWNG

Cafwyd dau gyfarfod – un ar 23 Mawrth a'r llall ar 21 Medi. Roedd asiantaethau allanol, awdurdodau lleol a sefydliadau â diddordeb mewn cynllunio ar gyfer argyfwng wedi bod yn gysylltiedig. Roeddynt wedi bod yn edrych ar bopeth ac ar pob posibilrwydd. Roeddynt yn awyddus i annog rhagor o gyfraniad gan asiantaethau oddi ar y safle ac felly roeddynt wedi newid yr agenda ryw ychydig i annog hyn, a byddent yn parhau i wneud hyn.

Roedd dau ymarfer sylweddol wedi'u cynnal. Ar 19 Ionawr, cynhaliwyd ymarfer argyfwng Lefel 3, lle cafodd trefniadau cenedlaethol eu profi. Dewiswyd Wylfa ar gyfer y senario er mwyn profi ymatebion ar draws y DU, ar bob lefel. Roedd yr ymarfer yn llwyddiant.

Cynhaliwyd ymarfer arddangos wythnos diwethaf ar gyfer rheoleiddwyr niwclear i ddangos gallu i ymateb i argyfwng. Roedd y rheoleiddwyr wedi gofyn am gael gweld sut y byddai'r safle yn ymateb i wahanol fathau o ddigwyddiadau, a oedd yn gryn her, gan y gall gwrthdaro godi mewn buddiannau, yn dibynnu ar y sefyllfa a'r amgylchiadau. Cymerwyd 6 mis i ddatblygu'r trefniadau, a'r farn oedd i'r arddangosiad fod yn ddigonol, yn adlewyrchu gwaith caled pawb. Doedd dim meysydd i'w gwella, dim ond awgrymiadau.

12. Y DIWEDDARAF AM Y PROSIECT 'SIAPIO'R DYFODOL'

Rhoddodd R Cowell gyflwyniad ar y prosiect hwn sydd werth £4.2 miliwn. Roedd y cyflwyniad yn edrych ar yr angen i feddwl am drawsnewid yng nghyswllt gweithwyr Wylfa a Thrawsfynydd, a gwneud yn siŵr fod ganddynt sgiliau ar gyfer y dyfodol. Nodwyd bod Gogledd Cymru yn cynnig sgiliau unigryw iawn ac felly'n lle gwych i fusnesau fuddsoddi ynddo, a rhoi datblygiad dynol wrth wraidd llwyddiant economaidd ddylai fod y nod.

Gofynnwyd a yw'r wybodaeth yn cael ei darparu a sut mae'r newyddion yn cael ei ledaenu. Nodwyd y bydd y cam cyntaf yn cychwyn yn y ddau safle ym mis Ionawr. Dywedodd J Crasker mai'r nod oedd i staff gael cyngor am ddim a gweld sut y gallent leoli a datblygu eu gyrfaoedd a chreu CV. Byddai'r wefan yn cael ei lansio ar ôl y Nadolig. Y prif nod oedd rhoi Wylfa a Thrawsfynydd ar y map a gwneud stori llwyddiant mawr.

Gofynnwyd beth oedd barn ysgolion lleol am y prosiect a soniodd Jean Jones o Ysgol Syr Thomas Jones am yr angen i gadw pobl ifanc ar Ynys Môn gan fod y boblogaeth yn

heneiddio. Esboniwyd y byddai contractwyr hefyd yn rhan o'r prosiect, nid aelodau o staff a staff asiantaeth yn unig. Codwyd mater gwleidyddiaeth ac ariannu, a chrybwyllwyd gwaith pobl megis yr Arglwydd Cledwyn yn y gorffennol, ond na ddylid ystyried y nod o ddenu pobl i'r ardal yn rhywbeth gwleidyddol. Gan siarad o safbwynt preswlydd lleol, dywedodd Mark Thornton fod Gogledd Cymru yn gyffredinol wedi dibynnu ar ychydig iawn o ddiwydiannau, a fydd bellach yn lleihau i un, a bod y prosiect hwn yn galonogol. Y mae pobl y mae'n rhaid iddyn nhw gael sgiliau ychwanegol ac, yn y pendraw, mae angen economi arnom sy'n fyrlymus a ddim yn ddibynnol ar gymorth allanol – gall ehangu'r economi, dysgu a datblygu gadw hynny i fynd.

Dywedodd y Cynghorydd Tom Jones fod angen rhoi sgiliau i bobl a chreu entrepreneuriaid a bod angen talentau a mentergarwch lleol arnom – dyna her go iawn. Diolchodd y Cadeirydd i bawb ac roedd yn falch o ddweud bod hyn yn gyfle o obaith yn y cyfnod hwn o dduwch economaidd. Dyma 'Gynllun Marshall' Gogledd Cymru, ac Ynys Môn yn benodol, ac mae'n braf gweld y blociau adeiladu'n cael eu rhoi yn eu lle.

13. SESIWN HOLI AC ATEB FFORWM AGORED

Crybwyllodd Mr D Hodges o Horizon ychydig o bwytiau. Roedd am wneud y grŵp yn ymwybodol fod nifer o dai ar y safle datblygu adeiladau newydd yn cael eu dymchwel oherwydd eu bod mewn cyflwr difrifol iawn. Hefyd, roedd astudiaethau geoffisegol yn cael eu cynnal, yn edrych ar oblygiadau'r gwaith adeiladu newydd, ac astudiaeth o'r effaith amgylcheddol ayb. Ar gyfer cam cyntaf yr ymgynghori, dylai modelau 3D ac ati fod ar gael yn y flwyddyn newydd. Gofynnodd T Conway a oedd Horizon wedi cael caniatâd cynllunio. Ymatebodd y Cadeirydd drwy ddweud y dylid gadael hynny yn eu dwylo nhw, ond y dylent wneud yn siŵr fod cwmnïau lleol yn cael eu defnyddio lle bynnag y bo hynny'n bosibl ar gyfer gwaith fel hyn.

14. UNRHYW FATER ARALL

Nid oedd unrhyw faterion eraill.

15. DYDDIADAU CYFARFODYDD 2012

Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf fel a ganlyn:

8 Mawrth 2012

7 Mehefin 2012

13 Medi 2012

6 Rhagfyr 2012

Diolchodd A M Jones i bawb am eu presenoldeb a dymuno cyfarchion y tymor iddynt oll.